# BWCABUS – CWESTIYNAU A OFYNNIR YN FYNYCH

## C. BETH YW'R BWCABUS™?

Gwasanaeth bysiau lleol, newydd sbon sydd ar gael yn ôl y galw ac sy'n defnyddio cerbydau mynediad hwylus, yw'r Bwcabus. Mae'r Bwcabus yn bwrpasol i anghenion y teithwyr a dim ond ar ôl i geisiadau ymlaen llaw am gludiant gael eu cyflwyno y mae'n gweithredu. Felly anghofiwch am edrych ar amserlen, yr unig beth fydd angen ichi ei wneud fydd ffonio ymlaen llaw pan fyddwch am wneud cais am gludiant.

## C. I BLE Y CAF DEITHIO GAN DDEFNYDDIO'R BWCABUS™?




Gallwch ddefnyddio'r Bwcabus i deithio i unrhyw le yn yr ardal lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu, a ddangosir ar y map.

Mae parth y Bwcabus yn cynnwys amryw bentrefi nad oes ganddynt wasanaeth bysiau ar hyn o bryd. Bydd hyn yn eich galluogi i deithio rhwng pentrefi lleol neu yn fodd i gysylltu â gwasanaeth bysiau 460, Caerfyrddin – Aberteifi – Caerfyrddin, sydd wedi cael ei wella ac sydd yn cael ei gynnal bob awr, ynghyd â'r gwasanaethau presennol eraill.

Gellir defnyddio'r Bwcabus at unrhyw ddiben megis teithio i'r gwaith, ymweld ag atyniadau twristiaeth lleol, cael gofal meddygol, addysg, hamddena, siopa ac ati.

## C. SUT MAE'R BWCABUS™ A GWASANAETH 460 YN CYSYLLTU Â'I GILYDD?

Mae'r Bwcabus yn cwrdd â gwasanaeth bysiau 460 mewn canolbwyntiau ar hyd llwybr Caerfyrddin – Aberteifi. Wrth archebu lle mae'n **rhaid** i deithwyr sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r ganolfan alwadau ble maent am ei gyrraedd a phryd y maent am deithio adref. Bydd y ganolfan alwadau'n defnyddio'r wybodaeth honno i benderfynu ar y llwybr cyflymaf ynghyd â'r canolbwyntiau mwyaf addas.

Cofiwch – bydd yn rhaid ichi drefnu eich taith adref ar y Bwcabus.

## C. A FYDD BWS 460 YNO'N AROS AMDANAF?

Byddwn yn amseru eich taith er mwyn gofalu y bydd y Bwcabus yn gallu bod yno i gwrdd â bws 460 bob amser. Bydd y Bwcabus yn aros i fws 460 gyrraedd cyn ichi drosglwyddo o un bws i'r llall.

## C. BETH YW CANOLBWYNT?

Man trosglwyddo o wasanaeth bysiau 460 i'r Bwcabus yw canolbwynt. Bydd y Bwcabus yn cludo teithwyr i'r canolbwyntiau hyn er mwyn iddynt allu dal gwasanaeth bysiau 460, Caerfyrddin - Aberteifi - Caerfyrddin. Mae 7 prif ganolbwynt ar yr A484, sef:

- Cenarth
- Castellnewydd Emlyn
- Henllan
- Dre-fach Felindre
- Saron
- Tŷ-coch
- Cynwyl Elfed

## C. A OES MODD IMI ARCHEBU CLUDIANT RHWNG DAU GANOLBWYNT?

Nac oes. Darperir hyn gan y prif wasanaeth bysiau, sef y 460, Caerfyrddin – Aberteifi – Caerfyrddin.

## C. A OES CYSYLLTIADAU Â GWASANAETHAU BYSIAU ERAILL?

Oes. Mae cysylltiad â'r Gwasanaeth Traws Cambria (X40) rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin ym Mhencader.

## C. A FYDD Y BWCABUS™ YN FY NGHODI O'M CARTREF?

Gwasanaeth bysiau yw'r Bwcabus ac mae'n codi teithwyr yn eu harosfannau bysiau agosaf. Fodd bynnag gall teithwyr sydd ag anawsterau symud gael eu codi/gollwng ger eu cartref, cyhyd ag y bo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny. Mae'n **rhaid** i deithwyr sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r ganolfan alwadau am unrhyw anawsterau symud wrth ymgofrestru ar gyfer y gwasanaeth. Hefyd mae modd i deithwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a diarffordd lle nad oes gwasanaethau bysiau penodedig, gael eu codi/gollwng ger eu cartref.

Byddwch wrth y man casglu mewn da bryd. Ni fydd y Bwcabus yn gallu aros yn hwy na'r amser casglu y cytunwyd arno. Os na fydd y cerbyd wedi cyrraedd cyn pen 10 munud, a fyddech cystal â chysylltu â'r ganolfan alwadau drwy ffonio: 01239 801 601.

## C. PRYD MAE'R BWCABUS™ YN GWEITHREDU?

Mae'r Bwcabus yn gweithredu o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, rhwng 7am a 7pm.

## C. A OES YN RHAID IMI GOFRESTRU ER MWYN DEFNYDDIO'R BWCABUS™?

Oes, mae'n rhaid i deithwyr gofrestru unwaith cyn defnyddio'r Bwcabus. Gellir gwneud hyn dros y ffôn yn gyflym ac yn hawdd. (Rhif Ffôn: 01239 801 601). Nid oes tâl cofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth. Bydd angen ichi roi eich enw, eich cyfeiriad, eich côd post, eich dyddiad geni ac ambell fanylyn arall.

## C. A GAF I FYND AR Y BWCABUS™ HEB DREFNU YMLAEN LLAW?

Ac eithrio ar y teithiau penodedig, mae'n rhaid i'r teithwyr archebu lle ymlaen llaw ar y Bwcabus. Fodd bynnag os yw teithiwr yn mynd ar yr un daith ag a archebwyd gan deithiwr arall ac os nad oes angen i'r bws adael y llwybr a drefnwyd ar ei gyfer, gall y teithiwr deithio ar y Bwcabus, cyhyd ag y bo lle ar y bws.

Mae amserlen y teithiau penodedig i'w gweld isod. NI fydd yn rhaid ichi archebu lle ar y teithiau hyn.

| **Dydd Llun yn unig:** | | |
|---|---|---|
| *460 cyrraedd Aberteifi* | | *12:10* |
| *460 gadael Castellnewydd Emlyn (CNE)* | | *12:31* |
| Castellnewydd Emlyn | 09:53 | 12:35 |
| Blaen-cil-llech | 09:58 | 12:40 |
| Penrhiw-pâl | 10:05 | 12:47 |
| Coed-y-bryn | 10:07 | 12:49 |
| Penrhiw-pâl | 10:09 | 12:51 |
| Rhydlewis | 10:12 | 12:54 |
| Brongest | 10:19 | 13:01 |
| Blaen-cil-llech | 10:25 | 13:07 |
| Castellnewydd Emlyn | 10:30 | 13:12 |
| *460 gadael CNE* | *10:33* | |
| *460 cyrraedd Aberteifi* | *10:59* | |

| **Dydd Mawrth yn unig:** | | | |
|---|---|---|---|
| Llandysul (Heol Newydd) | 08:50 | *460 gadael Aberteifi* | *12:10* |
| Tro'r Beeches | 08:54 | *460 cyrraedd CNE* | *12:31* |
| Horeb | 08:57 | Castellnewydd Emlyn | 12:35 |
| Penrhiw-llan | 09:00 | Llandyfrïog | 12:40 |
| Aber-banc | 09:02 | Aber-banc | 12:45 |
| Llandyfrïog | 09:07 | Penrhiw-llan | 12:47 |
| Castellnewydd Emlyn | 09:12 | Horeb | 12:50 |
| *460 gadael CNE* | *09:18* | Tro'r Beeches | 12:53 |
| *460 cyrraedd Aberteifi* | *09:44* | Llandysul (Heol Newydd) | 12:57 |

| Dydd Mercher a Dydd Sadwrn yn unig: | |
|---|---|
| Llandysul (Heol Newydd) | 09:30 |
| Pentre-cwrt | 09:36 |
| Saron (Llwyndafydd) | 09:40 |
| *460 gadael Saron* | *09:43* |
| *460 cyrraedd Caerfyrddin* | *10:21* |

| | |
|---|---|
| *460 gadael Caerfyrddin* | *13:45* |
| *460 cyrraedd Saron* | *14:21* |
| Saron (Llwyndafydd) | 14:25 |
| Pentre-cwrt | 14:30 |
| Llandysul (Heol Newydd) | 14:37 |

| Dydd Iau yn unig: | | |
|---|---|---|
| Llandysul (Heol Newydd) | 09:15 | 11:45 |
| Llanfihangel-ar-arth | 09:23 | 11:53 |
| Capel Dewi | 09:29 | 11:59 |
| Rhydowen (Alltrodyn Arms) | 09:32 | 12:02 |
| Pren-gwyn | 09:36 | 12:06 |
| Pentrellwyn | 09:39 | 12:09 |
| Llandysul (Heol Newydd) | 09:45 | 12:15 |

| Dydd Gwener yn unig: | | | |
|---|---|---|---|
| Maudsland (y groesffordd) | 09:10 | Castellnewydd Emlyn (y gysgodfan) | 12:40 |
| Tanglwst (y sgwâr) | 09:15 | Danyrhelyg | 12:43 |
| Capel Iwan (y gysgodfan) | 09:28 | Croesffordd Penrherber | 12:46 |
| Croesffordd Penrherber | 09:35 | Capel Iwan (gyferbyn â'r gysgodfan) | 12:53 |
| Danyrhelyg | 09:38 | Tanglwst (y sgwâr) | 13:05 |
| Castellnewydd Emlyn (y gysgodfan) | 09:41 | Maudsland (y groesffordd) | 13:10 |

## C. SUT Y GALLAF ARCHEBU TAITH?

Yr unig beth y mae angen i chi ei wneud yw cysylltu â'n canolfan alwadau ddwyieithog drwy ffonio 01239 801 601. Mae'r ganolfan alwadau ar agor rhwng 7am ac 8pm, 7 niwrnod yr wythnos. Mae'n rhaid archebu teithiau bore erbyn 8pm y diwrnod blaenorol a theithiau prynhawn erbyn 10am ar ddiwrnod y daith. Po gynharaf yr archebwch, po fwyaf tebygol yw hi y gall y gwasanaeth eich cynorthwyo.

Rhowch fanylion y daith y dymunwch ei gwneud i un o staff y ganolfan alwadau, a bydd ef/hi yn rhoi manylion ichi am y man casglu, y man trosglwyddo i wasanaeth arall a'r amserau cyrraedd. Mae modd archebu'r daith allan a'r daith adref ar yr un pryd. Ar ôl ichi archebu eich taith, yr unig beth y mae angen ichi ei wneud yw aros i'r bws gyrraedd!

## C. A ALLAF GANSLO TAITH A ARCHEBWYD?

Ar ôl ichi archebu taith, os nad oes mo'i hangen arnoch bellach am unrhyw reswm, cysylltwch â chanolfan alwadau'r Bwcabus i ganslo'r daith a archebwyd. Rydym yn cadw'r hawl i wahardd cwsmeriaid rhag defnyddio'r gwasanaeth os ydynt yn methu'n barhaus â dod ar deithiau y maent wedi eu harchebu.

## C. BETH SY'N DIGWYDD OS COLLAF Y BWS?

Gwasanaeth bysiau yw'r Bwcabus, nid gwasanaeth tacsi, felly os collwch y bws efallai na fydd yn bosibl trefnu taith arall ar yr un diwrnod. Gallwch gysylltu â'r ganolfan alwadau drwy ffonio 01239 801 601 i weld a yw'r Bwcabus yn dychwelyd eto yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Os oes gan y Bwcabus daith yn dychwelyd eto yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, gallwch deithio ar y daith hwyrach. Ond ni fydd y Bwcabus yn gallu newid y mannau codi a gollwng a drefnwyd ar gyfer y daith hwyrach.

## C. PA WYBODAETH FYDD YN RHAID IMI EI RHOI ER MWYN ARCHEBU TAITH?

Pan fyddwch yn archebu taith, byddwn yn gofyn ichi roi eich côd post. Dywedwch wrth y swyddog yn y ganolfan alwadau ble y byddwch yn cychwyn ar eich taith, i ble'r ydych am fynd a phryd yr ydych am adael neu gyrraedd. Os bydd y Bwcabus ar gael, byddwn yn cadarnhau'r daith. Os nad yw'r Bwcabus ar gael, bydd y swyddog yn awgrymu amser gwahanol a fydd yn cyd-fynd â thaith a archebwyd eisoes neu pan fydd y Bwcabus ar gael. A fyddwch chi gystal â sicrhau eich bod yn archebu eich taith yn ôl ar y Bwcabus.

## C. FAINT YMLAEN LLAW Y GALLAF ARCHEBU TAITH?

Gallwch archebu taith hyd at 28 niwrnod ymlaen llaw. Mae pob taith yn ddibynnol ar y gwasanaeth sydd ar gael, a bydd teithiau'n cael eu trefnu ar sail y cyntaf i'r felin. Argymhellwn eich bod yn rhoi cymaint o rybudd ag y bo modd er mwyn osgoi cael eich siomi.

## C. A ALLAF ARCHEBU TEITHIAU RHEOLAIDD?

Ni chyfyngir ar nifer y teithiau y gallwch eu harchebu, er enghraifft, pe baech am ddefnyddio'r bws yn gyson i deithio i'r gwaith, gallech archebu taith ar y Bwcabus bob dydd am yr wythnos sydd i ddod neu am gyfnod hwy os dymunwch.

## C. A OES ANGEN IMI ARCHEBU FY NHAITH ADREF YMLAEN LLAW?

Ac eithrio'r teithiau ar y llwybrau penodedig, mae'n rhaid i BOB taith Bwcabus gael ei harchebu ymlaen llaw. Gallwch archebu eich taith adref ar yr un pryd ag y byddwch yn archebu eich taith allan, neu gallwch ei harchebu ar wahân.

## C. A GAF ARCHEBU AR RAN CYFAILL NEU AELODAU O'M TEULU?

Cewch, mae modd archebu ar ran aelodau eraill Bwcabus, cyhyd ag y bônt wedi eu cofrestru ar gyfer y gwasanaeth, a'ch bod yn gallu rhoi eu henw, llinell 1af eu cyfeiriad a'u côd post.

## C. FAINT FYDD TAITH YN EI CHOSTIO?

Gellir prynu tocynnau taith unffordd, taith ddwyffordd neu aml-daith gan y gyrrwr. Bydd y prisiau'n amrywio yn dibynnu ar hyd y daith ond byddant yn cyfateb i brisiau teithiau bysiau lleol cyfredol. Cysylltwch â chanolfan alwadau'r Bwcabus i gael rhagor o fanylion. Gellir prynu neu ddefnyddio Tocynnau Crwydro Gorllewin Cymru a thocynnau '*explorer*' gan y Brodyr Richards ar wasanaeth y Bwcabus. Byddwch yn gallu defnyddio tocyn a brynwyd ar y Bwcabus neu ar wasanaeth 460 ar y Bwcabus ac ar wasanaeth 460. Ond ni fyddwch yn gallu defnyddio tocyn a brynwyd ar y Bwcabus neu wasanaeth 460 ar wasanaethau X40 neu X41.

## C. A GAIFF FY MHLENTYN DEITHIO'N RHAD AC AM DDIM?

Caiff un plentyn dan 5 oed nad oes angen sedd arno deithio'n rhad ac am ddim cyhyd ag y bo yng ngofal teithiwr sydd wedi talu am docyn, ONI BAI fod y plentyn yn teithio i'r ysgol neu oddi yno. Mae tocyn plentyn ar gael i blant dan 16 oed. NID yw gwasanaeth y Bwcabus yn derbyn tocynnau teithio ysgol a choleg.

## C. A FYDD YN RHAID IMI NEWID BWS YN AML?

Mae'n dibynnu i ble y byddwch yn teithio. Gwneir pob ymdrech i ofalu bod cyn lleied o newid bws ag y bo'n rhaid. Bydd yn rhaid i bobl sy'n defnyddio gwasanaeth 460 newid bws.

## C. A GAF DDEFNYDDIO FY NGHERDYN TEITHIO RHATACH?

Cewch, yng Nghymru caiff pobl sydd â Cherdyn Teithio deithio'n rhad ac am ddim ar bob gwasanaeth Bwcabus. Mae'n rhaid ichi fod yn byw yng Nghymru i fod yn gymwys i gael y cerdyn teithio rhatach. Mae'n rhaid ichi ddod â'ch cerdyn teithio rhatach gyda chi pan fyddwch yn teithio a'i gyflwyno i'r gyrrwr pan fyddwch yn esgyn i'r bws.

## C. A YW'R BWCABUS™ YN GERBYD Y GELLIR ESGYN IDDO'N HAWDD?

Mae i'r bysiau fynedfeydd isel, llydan, di-ris, sy'n eu gwneud yn hygyrch i bobl â chadeiriau gwthio, defnyddwyr cadeiriau olwyn, a phobl sydd â phroblemau symud.

Er bod y cerbydau newydd yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, mae cyfyngu ar gludo rhai cadeiriau olwyn. Cysylltwch â'r ganolfan alwadau i gael rhagor o fanylion.

## C. SUT Y GALLAF GYFLWYNO CWYN AM WASANAETH Y BWCABUS™?

Os oes gennych gŵyn am wasanaeth y Bwcabus, ffoniwch y ganolfan alwadau: 01239 801 601.

## C. FAINT FYDD COST CYSYLLTU Â CHANOLFAN ALWADAU BWCABUS™?

Bydd yn costio 10c y funud, yn ogystal â thâl cysylltu o 6c o linell dir BT, i ffonio 01239 801 601. Efallai y bydd prisiau rhwydweithiau eraill yn ddrutach a gall galwadau o ffôn poced gostio cryn dipyn yn fwy.
Ar gyfartaledd, mae galwad i ganolfan alwadau Bwcabus yn para 90 eiliad.

## C. A ALL GYRRWR Y BWS GYMRYD ARCHEB GENNYF NEU NEWID FY ARCHEB?

RHAID i bob archeb gael ei gwneud drwy ganolfan alwadau Bwcabus. Ni fydd modd i'r gyrwyr gymryd archebion gan deithwyr na newid eu harchebion.

## C. A GAIFF ANIFEILIAID ANWES DEITHIO AR Y GWASANAETH HWN?

Yn gyffredinol NI chaniateir i anifeiliaid anwes deithio ar y bysiau AC EITHRIO cŵn tywys/cŵn clyw. Gofalwch fod eich ci dan reolaeth ac nad yw'n peri rhwystr yn yr ale. Gofalwch eich bod yn rhoi gwybod amdano i'r ganolfan alwadau wrth archebu eich taith.

## C. A ALL Y GYRWYR GYNORTHWYO TEITHWYR DRWY GARIO EU BAGIAU SIOPA?

NI ALL gyrrwr y bws gynorthwyo teithwyr drwy gario eu bagiau siopa i'r cerbyd ac ohono.